**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20ain HYDREF 2008**

**CYNLLUN GWELLA - DRAFFT 2008-09**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Cyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru y Cynllun Gwella drafft, 2008-09, sy'n ymgorffori cynllun gweithredu y Cynllun Lleihau Risg 2009-10, er mwyn ei gymeradwyo ar gyfer ei gyhoeddi erbyn Hydref 31ain 2008.

## Cyflwyniad

**2.** Mae'r canllawiau statudol yn gwneud gofyniad ar awdurdodau tân yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gwella am y flwyddyn gyfredol, ynghyd â chynllun lleihau risg / cynllun gweithredu am y flwyddyn sydd i ddod, a hynny erbyn Hydref 31ain.

**3.** Mae'r canllawiau cyhoeddiedig yn cynnwys disgwyliad y bydd y cynlluniau gwella yn cynnwys:

- crynodeb o amcanion strategol yr Awdurdod
- esboniad ar y perfformiad yn y flwyddyn adrodd flaenorol, sy'n tynnu sylw at y cynnydd â wnaed mewn perthynas â'r amcanion allweddol ac i ba raddau yr aethpwyd i'r afael â'r risgiau allweddol

- gwybodaeth am berfformiad yn y flwyddyn flaenorol, yn cynnwys data dangosyddion strategol cenedlaethol sydd wedi eu harchwilio a thargedau (os yn berthnasol) a data dangosyddion eraill sy'n dangos y cynnyddd i gyfeiriad amcanion allweddol yr awdurdod a/neu liniaru'r risgiau
- crynodeb o'r asesiadau risg ar y cyd a wnaed yn fwyaf diweddar
- crynodeb o'r materion allweddol i'w gwella
- manylion am le i gael rhagor o wybodaeth

**Gwybodaeth**

**4.** Mae'r cyhoeddiad drafft sydd ynghlwm yn cwrdd â'r gofynion statudol o ran y Cynllun Gwella eleni. Mae angen cael cymeradwyaeth terfynol yr Awdurdod cyn ei gyhoeddi.

**5.** Yn ddibynnol ar gynnwys manylion penderfyniad terfynol yr Awdurdod ynghylch Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg am y flwyddyn nesaf, bydd hyn hefyd yn cwrdd â'r canllawiau cyhoeddedig gan ei fod yn ymwneud â'r Cynllun Lleihau Risg llawn a luniwyd ac a fabwysiadwyd yn 2006.

**6.** Yn unol â'r canllawiau, bydd crynodeb cyhoeddus o'r cynllun gwella yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd Tachwedd, ac yn cael ei ddosbarthu trwy ogledd Cymru wedi hynny.

**Argymhellion**

**7.** Bod yr Aelodau yn:

**7.1** nodi'r gofyniad i gyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer 2008-09 a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2009-10 erbyn Hydref 31ain 2008;

**7.2** cefnogi cynnwys manylion penderfyniad yr Awdurdod ynghylch Cynllun Gweithredu y Cynllun Lleihau Risg 2009-10 o fewn y Cynllun Gwella; ac yn

**7.3** Cymeradwyo'r Cynllun Gwella drafft 2008-09 sy'n ymgorffori Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg 2009-10 i'w gyhoeddi erbyn Hydref 31ain 2008.